O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 1056 (Cy. 248)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Llandeilo a Heol Gwilym, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder Rhan-amser o 20 mya) 2016

Gwnaed	*1 Tachwedd 2016*
Yn dod i rym	*7 Tachwedd 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Tachwedd 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Llandeilo a Heol Gwilym, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder Rhan-amser o 20 mya) 2016.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Llandybïe yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 210 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol o'r enw Heol Llandeilo at bwynt 101 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny fel y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 1 Tachwedd 2016

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).